

HOROSGŴP RHAMANT

Menter Iaith
Sir Ddinbych

Yn Hyrwyddo'r Gymraeg yn Lleol
Promoting the Welsh Language Locally

YR HWRDD / ARIES - Mawrth 21 – Ebrill 19

Hoffi mynd allan a chael hwyl. Serchus. Gwneud rhywbeth heb feddwl ddwywaith. Dim yn un i chwarae â'i deimladau. Cusanu'n ardderchog. Hawdd iawn, iawn i'w garu. Hoffi sefydlu perthynas, teulu yn bwysig iawn. Caredig a hael. Swllyd. Angen bod yn iawn bob amser- fodlon dadlau am oriau. Rhai o'r bobl mwyaf hyfryd yn y byd.

Y TARW / TAURUS – Ebrill 20 – Mai 20

Ymosodol. Mwynhau perthynas hir. Dim yn ildio'n hawdd. Fodlon cwffio am yr hyn mae'i angen. Gallu mynd ar eich nerfau ar adegau os chaiff ddigon o sylw. Wrth ei fodd yn mynd allan. Hoffi helpu pobl sydd mewn trafferth. Cusanu'n dda. Personoliaeth dda. Styfnig. Gofalus o eraill. Gallu bod yn fi fawr ar adegau. Fodlon gwneud unrhyw beth ar gyfer yr hyn mae'i eisiau. Hoffi cysgu, gallu bod yn ddiog. Unigryw. Dim yn un i chwarae â'i deimladau. Rhai o'r bobl mwyaf deniadol ar wyneb y ddaear.

YR EFEILLIAID / GEMINI – Mai 21 – Mehefin 20

Cymeriad hyfryd. Hynod gariadus. Gwrandu'n arbennig o dda. Da iawn am ddrysu pobl. Dim yn hoffi cwffio ond yn dal i allu'ch llorio chi. Anfodlon derbyn unrhyw nonsens gan neb. Hoffi dweud wrth rywun arall beth i'w wneud. Hawdd i'w bechu. Anghofus ac yn colli pethau yn aml. Gallu bod yn goeglyd a phlentynnaidd ar adegau. Hynod o fusneslyd. Dibynadwy. Hapus bob amser. Swllyd. Siaradus. Hoffi mynd allan. Maddau'n hawdd. Gwên hyfryd. Hael. Cryf. Waw! - fedrwyd chi ddim gwrthod Gemini.

Y CRANC / CANCER - Mehefin 21 – Gorffennaf 22

Cusanu'n anhygoel. Waw ffactor yn bendant! Cariad hollol wahanol i unrhyw un arall. Rhamantus iawn, iawn. Yn un mwyaf ei ofal o eraill. Y rhan fwyaf yn greadigol ac, a phob parch, bach yn wallgof. Hynod o ddigrif ac yn llawn hwyl. Rhyw – ffantastig ar ôl hir ymarfer. Fodlon eich cymryd dan ei adain ac i'w galon am byth. Caru gyda nwyd na ellir ei gymharu. Gwneud rhywbeth heb feddwl ddwywaith. Dim yn un am ffeit, ond yn fodlon cicio'ch pen ôl os oes raid. Daliwch eich gafael yn hwn neu hon.

Y LLEW / LEO – Gorffennaf 23 – Awst 22

Siaradwr ardderchog. Deniadol a nwydus. Hamddenol tu hwnt. Hapus fel arfer ond blin a phlentynnaidd os ydy o'n anhapus. Ei broblem yn dod yn broblem i bawb arall. Tueddu i fod yn undonog ac yn ddi-fflach. Gwybod sut i gael hwyl. Da iawn am bopeth bron. Cusanu'n wych. Hoffi mynd allan. Traed ar y ddaear. Swllyd. Hoffi bod mewn perthynas hir. Siaradus. Dim yn un i chwarae â'i deimladau. Anodd dod o hyd iddo, ond un da ar ôl i chi ddod o hyd iddo.

Y WYRYF / VIRGO – Awst 23 – Medi 22

Rheoli pob perthynas. Rhywun yn ei garu'r funud hon. Mynnu cael y gair olaf. Mawr ei ofal o eraill. Deniadol. Swllyd. Ffyddlon. Hawdd siarad ag o. Popeth y buoch chi'n dyheu amdano. Hawdd i'w blesio. Derbyn popeth yn ddi-rwgnach. Hoffi gambl a chymryd ei siawns. Mynnu'r gair olaf. Meddwl ei fod yn gwybod popeth ac fel arfer mae'n gwybod popeth! Parchu eraill ond gwae chi os ydy o'n meddwl i chi wneud tro sâl ag o. Dim yn maddau nac anghofio. Am fod yr unig un yn eich bywyd.

Y GLORIAN / LIBRA - Medi 23 - Hydref 22

Hyfryd gyda phawb mae'n ei gyfarfod. Ei gariad a'i apêl yn unigryw. Gwirion, digrif ac annwyl. Yr un mwyaf gofalus ohonoch a wnewch chi ei gyfarfod yn eich bywyd. Dim yn un i chwarae â'i deimladau – y chi fydd yn eich dagrau. Gallu creu llanast. Cyfaill ffyddlon hyd ddiwedd y byd. Gallu dal dig am flynyddoedd. Y math o berson yr ydych chi ei angen yn gyfaill. Fel arfer yn dda iawn am chwaraeon ac yn ffanatig am chwaraeon o bob math. Creadigol iawn. Rhamantus tu hwnt.





SGORPION / SCORPIO – Hydref 23 – Tachwedd 21

Hynod o serchus. Mwynhau cael hwyl. Synnwyr digrifwch da. Fodlon gwneud unrhyw beth unwaith. Mwynhau cael ei ddifetha. Llawn ynni. Tueddu i fod yn ddi-fflach. Cusanu'n ardderchog. Cael yr hyn mae o eisiau bob amser. Deniadol. Mwynhau perthynas hir. Siaradus. Mwynhau parti ond mynd dros ben llestri ar adegau. Hoffi pres, da iawn am wneud pres ac am wario pres hefyd. Yn warchodol iawn o'r rhai mae'n ei garu. Gweithiwr caled. Ffrind da ond gwae chi os ydych chi'n ei bechu o. Dyna fydd diwedd ar y cyfeillgarwch. Rhamantus ac yn fawr ei ofal o eraill.

Y SAETHWR / SAGITTARIUS – Tachwedd 22 – Rhagfyr 21

Byrlymus. Gweithredu heb feddwl ddwywaith. Brîd brin iawn ond bydd yn werth yr ymdrech. Mwynhau perthynas hir. Digonedd o gariad i'w rannu. Ar ei ben ei hun gan amlaf. Colli'i amynedd yn rhwydd ac nid yw'n goddef unrhyw lol. Tymer ddrwg – cadwch draw. Hawdd ei bechu ac yn cadw'r digwyddiad yn ei gof am byth. Ei gariad yn ddwfn ond nid yw'n dangos hynny bob amser. Ystyried dangos cariad yn wendid. Person preifat iawn. Gwarchodol iawn o'r rhai mae'n ei garu. Llauer o ofnau ond nid yw'n fodlon dangos hynny. Gallu bod yn blentynnaidd yn aml. Nid yw'n un i chwarae â'i deimladau - y chi fydd yn eich dagrau. Del iawn. Rhamantus iawn. Hyfryd gyda phawb mae'n ei gyfarfod. Ei gariad yn unigryw. Gwirion, hwyliog ac annwyl. Apêl unigryw. Mawr ei ofal o eraill. Anhygoel yn y gwely!!!

YR AFR / CAPRICORN – Rhagfyr 22 – Ionawr 19

Hawddgar. Deallus. Rhywiol. Gallu bod yn flin ar adegau a mynd ar nerfau rhai pobl. Diog braidd, hoffi cymryd pethau'n hamddenol. Pan ddaw ar draws gwaith neu rywbeth mae'n hoffi'i wneud mae'n rhoi'i holl sylw i'r peth hwnnw. Balch, annwyl, un sy'n deall eich teimladau chi ac un na ellwch ei wrthod. Mwynhau perthynas hir. Sgwrsiwr da. Cael yr hyn mae'i eisiau bob amser. Cŵl. Hoffi cael y llaw uchaf, yn arbennig o hoff o roi cweir mewn chwaraeon i un a anwyd dan arwydd Gemini. Mwynhau coginio ond mynd allan am bryd o fwyd mewn bwyty da yn plesio'n well. Llawn hwyl. Mwynhau hwyl. Deniadol.

Y CARIWR DŴR / AQUARIUS – Ionawr 20 – Chwefror 18

Dibynadwy. Deniadol. Cusanu'n ardderchog. Unigryw. Mwynhau perthynas hir. Fodlon gwneud ymdrech arbennig. Fodlon ymgymryd ag unrhyw brosiect. Hynod o falch. Blêr a di-drefn. Un sâl am wneud penderfyniad. Carwr o'i hochr hi pan nad ydy o'n cysgu. Meddwl yn eithafol. Caru'r anifail anwes yn fwy na'r teulu. Gallu mynd ar nerfau eraill wrth adrodd stori neu roi eglurhad. Anwadal. Dim yn un am ffeit ond gwyliwch eich hun.

Y PYSGODYN / PISCES – Chwefror 19 – Mawrth 20

Caredig a mawr ei ofal. Hoffi bod yn ganolbwynt y sylw. Trefnus iawn. Apelio'n fawr iawn at y rhyw arall. Hoff o gael y gair olaf. Os cewch hyd iddo bydd yn anodd i'w gadw. Carwr gwych, nwydus. Hwyl i fod yn ei gwmni. Ymddiried gormod mewn eraill ar adegau ac yn cael ei frifo'n hawdd. Ceisio gwneud y peth gorau bob amser ond weithiau yn camddeall y sefyllfa. Eraill yn ei ddefnyddio ar adegau ac mae'n cael ei frifo oherwydd ei natur hawddgar. Rhyfedd ond mewn ffordd hyfryd. Synnwyr digrifwch da. Meddylgar. Mwynhau cael hwyl. Poblogaidd iawn. Gwirion, hwyliog ac annwyl. Ffrind da ond angen dewis ei gyfeillion yn ofalus.

Menter Iaith Sir Ddinbych

Adeilad Deiamwnt
6 Heigad Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3LE

yholiadau@menteriaithdinbych.co.uk

01745 812822

